Cylch Gorchwyl

Partneriaeth Natur Ceredigion
Ceredigion Nature Partnership

Partneriaeth Natur Ceredigion Nature Partnership

Mynegai

1. Pwrpas
2. Diffiniadau
3. Dull Gweithredu
4. Statws
5. Aelodaeth
6. Gweinyddu
7. Strwythur
8. Cyfarfodydd

1. Pwrpas

Bydd Partneriaeth Natur Ceredigion yn gwneud y canlynol:

1. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith adfer natur a Chynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) Ceredigion sy'n ailgysylltu pobl o bob rhan o Geredigion â natur, gan wella dealltwriaeth o fioamrywiaeth yn y cyhoedd ehangach ac annog cyfranogiad mewn gweithredu ymarferol, cyfeiriedig ar gyfer natur mewn cymunedau.
2. Nodi, hyrwyddo, cydlynu a chofnodi camau presennol a newydd i warchod, hyrwyddo a gwella natur yng Ngheredigion, gan ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, polisïau a rhaglenni perthnasol Llywodraeth Cymru, a gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol, a chadw'r cylch gorchwyl a nodir isod.

2. Diffiniadau

1. **Natur** - Pob organeb fyw a chymhlethfa ecolegol, gan gynnwys elfennau a phrosesau nad ydynt yn fyw, y maent yn rhan ohonynt. Mae'n cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac o ran ecosystemau; gwydnwch ecosystemau; y gwasanaethau y maent yn eu darparu i gymdeithas a'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â natur.

2. **Partneriaeth Natur Leol Ceredigion / Ceredigion Local Nature Partnership**- Ein henw llawn. Llaw-fer ddwyieithog ddefnyddiol (a hashnod naturiol) yw **Natur Ceredigion** #NaturCeredigion
3. **Partneriaeth Natur Leol** - Term Llywodraeth Cymru am Bartneriaeth Natur, a dalfyrrir yn gyffredin i PNL.

3. Dull Gweithredu

Bydd y Bartneriaeth yn ceisio cyflawni ei nodau drwy:

1. Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ac unigolion allweddol sy'n gwarchod ac yn gwella natur yng Ngheredigion. Bydd hyn yn cynnwys rhwydweithio a rhannu arfer gorau i hyrwyddo cyflawni camau gweithredu yn effeithlon ar draws sefydliadau partner.
2. Casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i gadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd yng Ngheredigion.
3. Datblygu cynlluniau, yn bennaf Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) Ceredigion, o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Datganiadau Ardal a pholisïau a rhaglenni perthnasol eraill Llywodraeth Cymru, gan ystyried gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol a cheisio sicrhau bod camau gweithredu lleol yn ategu gofynion presennol yn hytrach na'u dyblygu.
4. Cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLl) ar gyfer y Bartneriaeth trwy sefydlu gweithgorau ac ymgynghori â grwpiau presennol eraill.
5. Gwneud argymhellion ar gyfer adolygu arferion lleol ar gyfer coedwigaeth, amaethyddiaeth, echdynnu mwynau, diwydiant, busnes, twristiaeth, parciau a defnyddio tir sy'n eiddo i aelodau a/neu drydydd partïon neu a reolir ganddynt er mwyn nodi cyfleoedd i wella'r potensial ar gyfer bywyd gwyllt. Bydd argymhellion o'r fath yn ceisio ategu polisïau, rhaglenni, trefniadau rheoli a gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol, yn hytrach na dyblygu neu greu gofynion ychwanegol ar gyfer sefydliadau unigol neu reolwyr tir eraill.
6. Cefnogi datblygiad prosiectau a gynherir gan sefydliadau ac unigolion sy'n cyfrannu at nodau'r Bartneriaeth a datblygu prosiectau newydd i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.
7. Monitro cyflawni camau adfer natur, gwerthuso cynnydd tuag at weithredu cynlluniau lleol a'u hadolygu yn ôl yr angen.
8. Nodi cyfleoedd ar gyfer integreiddio gwaith gwarchod, hyrwyddo a gwella natur mewn meysydd polisi, cynlluniau a phrosiectau eraill ledled Ceredigion.
9. Bydd y bartneriaeth yn sicrhau bod cyfranogiad eang gan y cyhoedd, busnesau, ysgolion, tirfeddianwyr, ffermwyr, sefydliadau a grwpiau lleol wrth ddatblygu a gweithredu gwaith Partneriaeth Natur Ceredigion drwy gefnogi Hwylusydd i:
    a. Adolygu a datblygu'r cynlluniau lleol, gan dynnu ar wybodaeth a sgiliau perthnasol o fewn y bartneriaeth a sicrhau ymgynghoriad â'r bartneriaeth lawn cyn cyhoeddi cynlluniau newydd neu ddiwygiedig.

b. Cefnogi ac annog grwpiau gweithredu newydd a phresennol i fwrw ymlaen â chymryd y camau gweithredu a nodwyd yn y cynlluniau.
c. Lledaenu gwybodaeth berthnasol i bartneriaid a'r cyhoedd fel y bo'n briodol.
d. Hybu ymwybyddiaeth am faterion sy'n gysylltiedig â chadwraeth natur trwy raglen o ymgysylltu a hybu ymwybyddiaeth.

10. Bydd y bartneriaeth yn hwyluso cyflogi neu gynnal Hwylusydd pan fydd cyllid priodol.

4. Statws

1. Mae'r Bartneriaeth yn fforwm cydweithredol ac nid oes ganddi unrhyw statws fel endid cyfreithiol.
2. Ni fydd gan y Bartneriaeth unrhyw awdurdod dros unrhyw un o swyddogaethau, dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r aelod-sefydliadau.
3. Mae pob partner wedi'i rymuso ar y cyd ac yn gyfartal i sefydlu a chymryd camau gweithredu i gyflawni nodau'r cynlluniau hyn mewn partneriaeth â'r lleill.
4. Bydd y Partneriaid yn arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion yr holl ddeddfwriaeth a pholisi perthnasol e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (1992), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) fel y'i diwygiwyd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016), Cynllun Gweithredu Adfer Natur (Cymru) a Chynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio (Cymru).

5. Aelodaeth

1. **Tanysgrifwyr** yn unigolion sy'n tanysgrifio i gylchlythyr y Bartneriaeth.
2. **Aelodau** yw sefydliadau, asiantaethau ac unigolion sy'n cefnogi nodau'r Bartneriaeth yn benodol ac sydd wedi ymrwymo iddynt.
3. **Partneriaid** yw Aelodau sydd â thudalen Partner sy'n wynebu'r cyhoedd ar ein gwefan.
4. Ni fydd ffi danysgrifio flynyddol ar gyfer Partneriaid.
5. Gall unigolion a sefydliadau gymryd rhan yn y Bartneriaeth mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu diddordebau, eu harbenigedd a'u gallu.
6. Gellir terfynu aelodaeth sefydliad neu unigol trwy hysbysu'r Hwylusydd. Dylid terfynu aelodaeth sefydliad yn ysgrifenedig; gellir terfynu aelodaeth unigol naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar.

6. Gweinyddu

Gweinyddu, cyllid a chyflogaeth

1. Cyngor Sir Ceredigion fydd y sefydliad cynnal a bydd yn darparu'r trefniadau gweinyddol, ariannol a chyflogaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y Bartneriaeth. Bydd partneriaid yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gwaith y Bartneriaeth, lle bo hynny'n briodol ac yn amodol ar eu rolau unigol, eu gallu a'u hadnoddau sydd ar gael, trwy amser swyddogion, arbenigedd, cymorth prosiect neu gyfraniadau nwyddau eraill.

2. Os yw'r Bartneriaeth yn dod i ben a bod arian neu asedau yn enw'r Bartneriaeth, bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo i aelod-sefydliad sy'n parhau â'r prosiect neu eu dychwelyd i'r cyllidwyr gwreiddiol.
3. Cyfle Cyfartal
    a. Ni fydd y Bartneriaeth yn goddef unrhyw fwlio, aflonyddu na gwahaniaethu. Bydd pob Partner ac aelod yn cael ei drin yn gyfartal, waeth beth fo'i ryw, ei gyfeiriadedd rhywiol, ei ethnigrwydd, ei grefydd neu ei nodweddion eraill. Bydd pob unigolyn/grŵp/busnes sy'n gweithio gyda Phartneriaeth Natur Ceredigion yn cael ei asesu ar ei gyfranogiad gyda chamau adfer natur yn unig, heb wahaniaethu rhwng rhywiau, cyfeiriadedd rhywiol a hil neu farn wleidyddol, grefyddol neu farn arall.
    b. Bydd y Bartneriaeth yn cydnabod ac yn ymateb i faterion iaith, anabledd, hil, rhyw, oedran a diwylliant ag addasiadau rhesymol i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan a chyfrannu at y Bartneriaeth.

4. Mae cyfarfodydd y Bartneriaeth Natur yn ddigwyddiadau cyhoeddus a gall unrhyw unigolyn neu gynrychiolydd sefydliad fynychu, p'un a yw'n aelod ai peidio. Mae angen datgelu unrhyw wybodaeth sensitif yn breifat i'r bobl berthnasol. Diogelu Data
    a. Bydd y Bartneriaeth yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys yn ymwneud â diogelu data, preifatrwydd a GDPR.
    b. Er gwaethaf 6.3.a a 6.3.b (uchod) rhaid i Hwylusydd y Bartneriaeth a'r Cynorthwywyr Bioamrywiaeth gydymffurfio â pholisïau perthnasol y sefydliad cynnal.
5. **Diddymu** - Bydd y Bartneriaeth yn cael ei diddymu os bydd mwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau yn cytuno mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd at y diben hwnnw gydag o leiaf bythefnos o rybudd i bob aelod. Gall y Bartneriaeth hefyd gytuno i atal ei gweithrediadau am gyfnod yn ôl y gofyn, gan ddefnyddio'r un mecanwaith.

7. Strwythur

1. **Rolau**
    a. **Swyddogion**
        i. **Cadeirydd** - yn cadeirio cyfarfodydd neu'n enwebu cadeirydd dros dro
        ii. **Is-gadeirydd** - yn cymryd cyfrifoldebau'r Cadeirydd yn ei absenoldeb
        iii. **Hwylusydd** - yn cydlynu gwybodaeth, cofnodion a chyfarfodydd
    b. **Tanysgrifiwr** – yn tanysgrifio i'n cylchlythyr
    c. **Aelod –** Sefydliadau ac unigolion sy'n cytuno â'n nodau
    d. **Partner** – Aelod sydd â phroffil sy'n wynebu'r cyhoedd ar ein gwefan
2. **Cyfrifoldebau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd**
    a. Cyngor Sir Ceredigion sy'n cynnal y Bartneriaeth, ond y Cadeirydd yw'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth, a'r Is-gadeirydd yw Cydlynydd Partneriaeth Natur Ceredigion.
    b. Yn absenoldeb y Cadeirydd neu gadeirydd dros dro enwebedig, bydd yr Is-gadeirydd yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau'r Cadeirydd.

c. Bydd y Cadeirydd yn mynychu ac yn cadeirio cyfarfodydd y bartneriaeth a'r Grŵp Llywio, gan sicrhau llywodraethu da a'u bod yn cael eu cynnal yn effeithiol ac yn amserol.
d. Bydd y Cadeirydd yn hyrwyddo cydweithio yn y Bartneriaeth, ac yn sicrhau bod perthynas gadarnhaol yn cael ei datblygu a'i chynnal â sefydliadau allweddol.
e. Bydd y Cadeirydd yn gweithio gyda'r Partneriaid a'r Aelodau drwy'r Hwylusydd i helpu i osod cyfeiriad strategol Partneriaeth Natur Ceredigion o fewn ei chylch gwaith daearyddol drwy osod blaenoriaethau a monitro cyflawni yn effeithiol.

3. **Cyfrifoldebau Partneriaid**
   a. Cymryd camau effeithiol i warchod a gwella natur yng Ngheredigion, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy gydweithio.
   b. Hyrwyddo nodau'r Bartneriaeth yn ei chyfanrwydd, ac nid nodau sefydliadau partner unigol yn unig.
   c. Hyrwyddo, gweithredu ac adrodd ar gamau gweithredu sy'n cyfrannu at nodau cynlluniau lleol.
   d. Nodi prosiectau y gall aelod-sefydliadau ymgymryd â nhw neu gyfrannu atynt er mwyn cyflawni nodau cynlluniau lleol a lledaenu'r wybodaeth hon o fewn yr aelod-sefydliad.
   e. Nodi adnoddau (ariannol neu mewn nwyddau) y gall aelod-sefydliadau eu cyfrannu i helpu i gyflawni gweinyddiaeth graidd y Bartneriaeth neu brosiectau adfer natur penodol.
   f. Rhoi gwybod am gynnydd drwy'r mecanweithiau y cytunwyd arnynt ac a ddefnyddir gan y Bartneriaeth e.e. yr Hwylusydd.
   g. Bydd cyfrifoldebau a chyfraniadau'r Partneriaid yn gymesur â'u rôl, eu maint, eu harbenigedd, eu gallu, yr adnoddau sydd ar gael iddynt a'u cyfrifoldebau statudol.

8. Cyfarfodydd

1. Bydd y Bartneriaeth yn cynnal o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn mewn lleoliadau teg o amgylch Ceredigion.
2. Bydd cyfarfodydd partneriaeth yn cael eu hwyluso a'u trefnu gan yr Hwylusydd.
3. Bydd yr agenda ddwyieithog ar gyfer pob cyfarfod yn cael ei dosbarthu drwy e-bost o leiaf wythnos (lle bo'n bosibl) cyn pob cyfarfod, i bob Partner ac Aelod.
4. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gytuno ar agendâu cyfarfodydd a chofnodion i'w cylchredeg (i'w drafftio gan yr Hwylusydd).
5. Bydd y Cadeirydd yn cynnal pleidlais fwrw os bydd penderfyniad cyfartal.
6. Rhaid datgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sydd gan aelod mewn eitem agenda ar ddechrau'r cyfarfod. Efallai y gofynnir i'r aelod adael y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod.
7. Bydd yr Hwylusydd yn cadw cofnodion dwyieithog o holl gyfarfodydd ffurfiol y Bartneriaeth ac yn eu hanfon o fewn pythefnos i ddyddiad y cyfarfod.

- *Awduron:* Jake Rayson, Gillian Clark
- *Dyddiad:* Mer 2 Hyd 2024

- *Addaswyd:* Mer 2 Medi 2026